Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Meddyg**

**Llys Meddyg**
**4 Ffordd yr Orsaf**
**Dinbych**
**LL16 3DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Meddyg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | John Roberts |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Gorffennaf 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gofal gofalgar a charedig sy'n mwynhau eu gwaith ac sydd wedi meithrin cydberthnasau parchus a thosturiol â nhw. Mae'r perthnasau yn fodlon ar y gofal a ddarperir ac yn hyderus bod y bobl yn byw mewn cartref gofalgar ac effeithiol. Mae'r gofal a ddarperir yn adlewyrchu hynny a ddogfennir yn y cynlluniau gofal cynhwysfawr; caiff anghenion a dewisiadau'r bobl eu diwallu ac mae'r staff yn parchu penderfyniadau'r bobl lle y bo'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny. Caiff y cynlluniau gofal eu llunio ar ôl i'r staff gasglu gwybodaeth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddiwallu anghenion y bobl. Nid yw'r cyfleusterau a ddarperir yn y cartref yn adlewyrchu'r hyn a gaiff ei gynnig yn y datganiad o ddiben yn llawn ar hyn o bryd, ond mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r gwaith o wella'r adeilad, ei gyfleusterau a'r ardd. Mae'r staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel gan fod y darparwr yn cynnal yr holl wiriadau gofynnol cyn eu cyflogi. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar amrywiaeth o feysydd perthnasol a chaiff cynnydd ei fonitro er mwyn sicrhau bod y darparwr yn gwybod pryd y dylai'r staff gofal ymgymryd â hyfforddiant gloywi. Mae angen i rai aelodau o'r staff ymgymryd â hyfforddiant ar rai meysydd o hyd, a bydd angen trefnu hyn.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff gwybodaeth ei chasglu wrth i'r bobl gael eu derbyn i'r cartref sy'n rhoi gwybod i'r gwasanaeth am ddewisiadau'r person, sut mae wedi treulio ei fywyd a'r hyn y mae wrth ei fodd yn ei wneud, ei arferion gorau a'i ddiddordebau. Cânt gymorth i wisgo ac i gadw eu hymddangosiad fel y dymunant; nododd ymwelydd bod dillad yn cael eu golchi'n effeithiol a'u dychwelyd yn ofalus i'w perchenogion cywir ac mae unigolyn trin gwallt yn ymweld â'r cartref. Caiff y bobl eu trin gan y staff sy'n dangos parch tuag at eu preifatrwydd a'u hurddas ac mae mwy o eitemau personol yn cael eu storio'n gyfrinachol; mae'r staff gofal yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae rhai o'r bobl yn dewis aros yn eu gwelyau tan yn hwyr y bore ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Caiff dewisiadau personol eu diwallu o ran deiet a gweithgareddau.

Mae'r staff gofal yn darparu'r cymorth cywir er mwyn sicrhau bod y bobl mor iach a hapus ag y gallant fod; mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion a dewisiadau'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y cartref gan eu bod yn darllen y cynlluniau gofal ar gyfer pob unigolyn. Mae nyrs hyfforddedig bob amser ar ddyletswydd a chaiff iechyd y bobl ei fonitro a'i gofnodi. Mae'r bobl yn gwneud pethau sydd o ddiddordeb iddynt a chaiff gweithgareddau eu hail-drefnu er mwyn diddanu'r bobl yn ystod y prynhawn. Mae'r darparwr yn cyfeirio at ddogfennau asesu a gaiff eu paratoi gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses o ofalu am yr unigolyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu llunio cynllun gofal, ond mae'r broses asesu yn faes i'w wella. Rhaid i'r darparwr gwblhau ei asesiad llawn ei hun, er mwyn iddo fod yn sicr bod y gwasanaeth yn gallu helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau dymunol.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol ac mae'r polisi a'r weithdrefn gywir ar gael iddynt. Dywedodd y staff wrthym fod rhywun bob amser yn y swyddfa i siarad â nhw. Mae cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r staff godi pryderon am ymarfer pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddementia er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y gallu i ddeall sut mae'n effeithio ar y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac er mwyn iddynt eu cefnogi mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r bobl yn parhau i fwynhau eu cydberthnasau â theulu a ffrindiau gan fod ymweliadau'n cael eu hannog mewn ffordd gadarnhaol rhwng amseroedd bwyd. Caiff yr ystafelloedd eu personoli â ffotograffau o deuluoedd y bobl i'w hatgoffa o achlysuron arbennig ac atgofion eraill.

Mae'r staff gofal yn dweud ei bod yn bleser gweithio yn y cartref; *‘it’s not just work to us’*. Maent yn mwynhau ymdeimlad teuluol a chartrefol y cartref a'r cydberthnasau y maent yn eu meithrin â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Rhoddir sicrwydd i deuluoedd y bobl sy'n ymweld â'r cartref bod y staff gofal yn meddwl y byd am eu perthynas yno.

## Gofal a Chymorth

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau'r bobl a'u teuluoedd yn ogystal â safbwyntiau unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses o ofalu am yr unigolyn cyn ei dderbyn i'r cartref. Cyfeirir at yr asesiadau a gwblheir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth ddylunio'r cynllun gofal ac mae'r ddogfen ‘Amdanaf i’ yn amlinellu dewisiadau'r bobl ac yn cynnwys manylion am eu bywyd. Mae'r gwasanaeth yn cofnodi gwybodaeth sylfaenol am bob unigolyn, ond mae angen iddo gwblhau asesiad o anghenion y bobl mwy cynhwysfawr cyn eu derbyn er mwyn asesu galluedd y gwasanaeth i gyflawni'r canlyniadau dymunol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried amrywiaeth o feysydd sy'n benodol i ofal yr unigolyn a chaiff pob maes ei adolygu bob mis. Dengys y cofnodion dyddiol bod y camau a nodir yn y cynlluniau gofal yn cael eu cymryd; mae'r staff yn gwybod sut i ddiwallu anghenion y bobl ac maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n effeithiol. Caiff strategaethau rheoli risg eu dilyn; gwelsom fod cofnodion gofal penodol yn cael eu cadw yn ystafell pob unigolyn na all godi o'r gwely. Caiff mesurau eu cymryd i amddiffyn iechyd y croen a sicrhau bod y bobl yn parhau i hydradu. Roedd un o'r cynlluniau gofal yn nodi bod un unigolyn yn mwynhau bwydydd bys a bawd a ffrwythau a gwelsom yr unigolyn yn bwyta bysedd tost a banana i frecwast.

Caiff y bobl ofal o'r ansawdd sydd ei angen arnynt gan fod y gwasanaeth wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â nhw ac unigolyn eraill sy'n eu hadnabod yn dda. Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau y mae'r bobl yn mwynhau cymryd rhan ynddynt yn ystod y prynhawn, gan gynnwys adloniant cerddorol byw. Gwelsom fod rhai o'r gweithgareddau yn cael eu cynllunio ar sail unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn gweddu dewisiadau'r bobl, fel garddio a siopa. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Dywedodd ymwelwyr wrthym fod y bobl *‘always look well cared for’* a *‘staff are kind’ ‘food is excellent’, ‘there are plenty of Welsh staff so people can speak in their chosen language’.* Mae'r perthnasau yn canmol natur garedig y staff. Gwelsom aelod o'r staff gofal yn mynd at unigolyn a oedd yn dechrau cynhyrfu. Gwnaeth yr aelod o'r staff gofal dynnu sylw'r unigolyn gyda thegan mecanyddol o gath a oedd i'w gweld yn un go iawn, a gan siarad mewn ffordd annwyl, fe wnaeth annog yr unigolyn i fwytho'r tegan. Tawelodd yr unigolyn.

Gall y bobl gael gofal iechyd pan fydd ei angen arnynt; mae nyrs ar ddyletswydd bob amser a chaiff gwasanaethau iechyd ychwanegol eu ceisio pan fo angen. Gwelsom lythyrau apwyntiadau a chanllawiau proffesiynol i'r staff ar reoli materion iechyd gwahanol.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae'r fferyllfa gymunedol wedi cwblhau archwiliad yn ddiweddar ac roedd yn fodlon iawn ar y trefniadau sydd ar waith. Caiff cofnodion priodol eu cadw o'r meddyginiaethau a roddir ac maent yn cael eu storio'n ddigonol, yn briodol ac yn ddiogel. Dim ond nyrsys hyfforddedig sy'n cael rhoi meddyginiaethau yn y cartref.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i leoli mewn tref ac yn agos at siopau a lleoedd eraill y mae'r bobl yn hoffi ymweld â nhw. Caiff y cartref ei gadw'n lân gyda dau aelod o staff domestig yn cael eu cyflogi. Gwelsom fod amserlenni glanhau yn cael eu creu er mwyn sicrhau bod ardaloedd yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac na chânt eu methu wrth lanhau. Mae'r cartref yn olau, yn gynnes ac yn gartrefol.

Mae lifft ar gael er mwyn i'r bobl gyrraedd y llawr cyntaf yn hawdd. Mae ystafelloedd gwlyb sy'n ei gwneud yn haws i'r bobl gael cawod ac mae gan bob unigolyn wely y gellir ei addasu er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn gyfforddus ac yn ddiogel wrth gysgu. Mae gan y bobl hambyrddau glin i fwyta eu prydau arnynt ac mae ystafell fwyta fach sy'n ddigon o faint ar gyfer ychydig o bobl. Mae gan y bobl gyfarpar sy'n eu helpu i symud o amgylch y cartref ac i'w helpu i drosglwyddo o'r gadair i'r gwely. Mae llawr newydd wedi cael ei osod yn yr ystafelloedd cymunedol yn ddiweddar a gwelsom fod un o'r ystafelloedd gwely yn cael ei hailaddurno.

Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, fel y llenni a oedd mewn cyflwr gwael ac roedd rhai ohonynt wedi dod oddi ar y traciau llenni; teils nenfwd a oedd wedi'u staenio a'u difrodi; décor a oedd wedi'i ddifrodi mewn rhai mannau; yr angen am fwy o oleuadau addas mewn rhai ystafelloedd gwely; a'r angen i osod cegin newydd. Nid yw'r ystafell sy'n cynnwys bath cynorthwyedig yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ac nid yw'r ardd yn ddiogel gan nad oes unrhyw ffin ddiogel ac mae peryglon baglu yno. Cadarnhaodd cynllun gofal un unigolyn ei fod yn hoffi bod yn yr ardd, ond nid oedd yn gallu treulio amser yno heb gymorth gan y staff nad oeddent ar gael ar yr adeg honno. Mae deunyddiau wedi cael eu prynu er mwyn ailddylunio'r ardd. Gwelsom gynllun datblygu ar gyfer y safle i fynd i'r afael â rhai, ond nid pob un, o'r materion a nodwyd gennym. Dylid cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r amgylchedd yn amlach er mwyn sicrhau y caiff meysydd eu nodi a'u datrys yn brydlon. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom dystysgrifau a thystiolaeth arall i ddangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y cyfarpar trydanol, dŵr, nwy, diogelwch tân a'r cyfarpar cyffredinol yn ddiogel. Gwelsom fod y lifftiau a'r cyfarpar cymorth arall wedi cael eu profi a'u gwasanaethu. Mae'r asesiadau risg wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, gan gynnwys yr asesiad risg ar ddiogelwch tân. Cwblheir archwiliadau iechyd a diogelwch, diogelwch tân a glanhau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth a bod y gofal a ddarperir yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn helpu i sicrhau bod arferion diogel ar waith a chânt eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn berthnasol. Gall y staff gael gafael ar y rhain ac mae'n ofynnol eu bod yn eu dilyn. Mae systemau archwilio ar waith sy'n cadw llygad ar iechyd a diogelwch y cartref. Mae'r strwythur rheoli, fel y'i nodir yn y datganiad o ddiben, yn aml-haenog felly gall sawl unigolyn sy'n goruchwylio'r gwasanaeth roi adborth i'r unigolyn cyfrifol.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Yng nghyntedd y cartref, mae ffurflenni adborth ar gyfer ymwelwyr er mwyn iddynt roi eu barn ar y cartref a blwch i'w postio yn ddienw. Caiff y rhain eu casglu a'u hystyried er mwyn gwneud gwelliannau os bydd angen. Caiff archwiliadau eu cynnal ar y feddyginiaeth, iechyd a diogelwch y cartref a'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae rhestrau gwirio a thaenlenni yn helpu i sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, goruchwylio staff, sefydlu staff a hyfforddiant yn cael eu monitro'n agos er mwyn cynnal cydymffurfiaeth. Mae'r adroddiadau chwarterol yn nodi bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bob tri mis i wirio bod y gwasanaeth yn rhedeg fel y dylai ac mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal a gaiff eu llunio ddwywaith y flwyddyn yn nodi bod y darparwr yn ymwybodol o'r hyn sy'n gweithio'n dda a lle mae angen gwneud gwelliannau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan nifer addas o staff medrus sydd wedi ymgymryd â'r broses fetio'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Mae rhai o'r bobl na allant symud cystal yn defnyddio'r lolfa ar y llawr cyntaf ac mae eraill yn defnyddio'r lolfa ar y llawr gwaelod. Mae dau aelod o'r staff gofal yn bresennol ar bob llawr. Mae nyrs arweiniol ar ddyletswydd bob amser ac mae'r rheolwr yn bresennol bron bob dydd. Mewn achosion o absenoldeb dirybudd, mae banc o staff y gall y rheolwr ei ddefnyddio i gyflenwi'r shifft. Gwelsom fod y gweithdrefnau recriwtio yn sicrhau bod darpar aelodau o staff yn cael eu fetio'n llawn cyn cael eu cyflogi a'u bod yn dilyn rhaglen sefydlu cyn i'r ddau barti benderfynu a ydynt yn addas ar gyfer y rôl. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y ddealltwriaeth a'r wybodaeth ofynnol sy'n benodol i'w rôl yng nghartref Llys Meddyg. Nid oes rhai aelodau o'r staff cynorthwyol wedi cwblhau hyfforddiant codi a chario; nid oes rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yng nghyd-destun y bobl â dementia sy'n byw yn y cartref. Roedd hyn yn faes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 43 | Nid yw'r cyfleusterau a ddarperir i'r bobl sy'n byw yn y cartref yn adlewyrchu'r hyn a gaiff ei gynnig yn y datganiad o ddiben. Er bod cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae angen cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r safle yn amlach er mwyn sicrhau y caiff meysydd i'w gwella eu nodi a'u datrys yn brydlon. | Newydd |
| 36 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi i gwblhau’r hyfforddiant sy’n ofynnol ar gyfer eu rolau ac sy’n diwallu anghenion y bobl sy’n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion cydymffurfio yn adlewyrchu'r hyfforddiant a gyflawnwyd gan y staff yn ogystal â'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan rolau'r staff unigol. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 18 | Nid yw'r darparwr yn cwblhau ei asesiad cynhwysfawr ei hun o anghenion y bobl, eu dymuniadau, eu dewisiadau na'u risgiau. Ni chaiff y ffordd y gall yr adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau ei gwerthuso. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod asesiad llawn yn cael ei gynnal ar gyfer pob unigolyn a bod yr asesiad hwn yn cael ei adolygu yn unol â'r cynlluniau gofal o leiaf bob tri mis. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/06/2024